Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
Venue Cymru
Llandudno
Dydd Sadwrn 6 Tachwedd 2010

Tlysau a Gwobrau:

1af:	Tlws Parhaol, Tlws a £500
2il:	Tlws a £200
3ydd:	Tlws a £100
Enillydd Llawn:	Tlws Parhaol, Tlws a £500

Trefn y Dydd:

Y cystadleuaeth i ddechrau am 10am dydd Sadwrn 6 Tachwedd 2010, gyda Dosbarth Un. Beirniadaeth a chanlyniad ar ôl pob dosbarth. Cyngerdd yr Enillwyr a Chyflwyno Gwobrau i ddechrau am 8pm

Rheolau a Rheoliadau:

Gweler drosodd

Ymholiadau:

alun.pritchard@conwy.gov.uk
ffôn 01492 575948
ffacs 01492 575949

Cyfeiriad ffurflenni cais:

Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Noddir Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru gan
Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Stena Line

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Stena Line

Rheolau a Rheoliadau

Cymhwysedd i Gystadlu

1. Rhaid i bob côr fod yn amatur.
2. Mae Dosbarth 1 - Corau Ieuenctid ar agor i bobl 21 oed ac ieuengach.
3. Rhaid i gorau gynnwys o leiaf 10 unigolyn.
4. Ni chewch ganu unrhyw gerddoriaeth mewn arddull Siop Barbwr mewn unrhyw gategori heb law am Ddosbarth 3.
5. Ni fydd aelodau o'r rhyw arall yn cael bod yn gantorion gwadd / perfformio darnau ar y cyd yng nghategorïau'r dynion na'r merched.

Repertoire

6. Mae gan bob côr 10 munud o amser canu, lle mae'n rhaid canu cymaint o wahanol ddarnau o gerddoriaeth ag y maent yn dymuno, gyda neu heb gyfeiliant. Nodwch fod rhaid cadw at yr amseroedd neu bydd corau'n cael eu cosbi am fynd dros amser.
7. Bydd rhaid i bob côr fod yn barod i aros ar gyfer Cyngerdd yr Enillwyr – bydd y corau yn y safle 1af ym mhob dosbarth yn canu detholiad o'u hoff ganeuon am 15 munud, unwaith eto bydd rhaid cadw at amseroedd neu bydd corau'n cael eu cosbi. Ni fydd arian gwobrau yn cael ei dalu i gorau sy'n gorffen yn 1af os na fyddant yn canu yng Nghyngerdd yr Enillwyr.
8. Bydd penderfyniad y beirniaid ym mhob mater cystadlu yn derfynol.

Hawliau Darlledu a Recordio

9. Un o amodau cymryd rhan yw bod pob côr yn cytuno:
   a. Gellir darlledu unrhyw berfformiad a wneir yn ystod yr Ŵyl Gorawl yn fyw ac/neu ei recordio i'w ddarlledu'n ddiweddarach ar y radio ac/neu'r teledu ac ar CD heb i'r côr dderbyn unrhyw daliad. Yr Ŵyl fydd yn berchen ar holl hawliau darlledu unrhyw berfformiad yn yr Ŵyl, a bydd hawl ganddynt i'w defnyddio fel y maent yn dymuno.
   b. Gellir recordio unrhyw berfformiad a wneir yn yr Ŵyl Gorawl, heb wneud taliad a bydd hawl gan y trefnwyr i fod yn berchen ar unrhyw recordiad o'r fath a bydd hawl ganddynt hefyd i atgynhyrchu unrhyw recordiad o'r fath, a gwerthu, prydlesu, hurio allan, cynnig gwerthu neu hurio allan, dosbarthu neu gael gwared mewn unrhyw ffordd arall ar recordiad neu atgynhyrchiad o recordiad o unrhyw berfformiad o'r fath fel y maent yn dymuno.
   c. Yn unol â hawliau perfformio, ni chaniateir defnyddio offer fideo, sain neu ffotograffig yn ystod unrhyw gystadlaethau, ac eithrio ffotograffydd swyddogol yr Ŵyl.

Cyffredinol

10. Mae'n rhaid i bob côr sy'n teithio o'r Iwerddon ddefnyddio gwasanaeth Stena Line.
11. Byddwn ond yn derbyn ceisiadau hwyr mewn amgylchiadau eithriadol.
12. Os oes angen, bydd yn rhaid i gorau ddarparu eu cyfeilydd eu hunain.
13. Ni fydd hawl gan gorau i berfformio ar y llwyfan cyn y gystadleuaeth.
14. Bydd yr holl gorau'n cael mynediad am ddim i Gystadlu'r Dydd, ond bydd rhaid iddynt dalu i ddod i Gyngerdd yr Enillwyr os nad ydynt yn cystadlu. Bydd rhaid i holl westai eraill y côr dalu am fynediad.
15. Dim ond darnau gwreiddiol o gerddoriaeth fydd yn cael eu derbyn.
16. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i addasu'r amserlen yn ôl y nifer o gystadleuwyr sydd ym mhob categori.
17. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer y cystadleuwyr ym mhob categori.
18. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i ganslo categori os nad yw'n teimlo fod digon o gystadleuwyr.
19. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gystadleuwyr.
20. Drwy gymryd rhan yn yr Ŵyl Gorawl rydych yn dynodi eich bod yn derbyn yr holl reolau a rheoliadau.